newyddion

LLAIS SIR GÂR

Carmarthenshire Voice Llais Sir Gâr

Mae Panel Dinasyddion Sir Gaerfyrddin yn dathlu ei ben-blwydd yn 10 oed!

Bu Mark James, Prif Weithredwr y Cyngor, Steve Mears, Prif Uwcharolygydd yr Heddlu a Trevor Purt, Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd i gyd yn cymryd rhan yn nathliadau pen-blwydd y Panel yn 10 oed drwy dorri ein cacen pen-blwydd a'i rhannu gydag aelodau o'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol.

Dywedodd Gareth Payne, aelod o'r panel: 'Rwy'n mwynhau cymryd rhan gan ei bod yn enghraifft dda o ddemocratiaeth ar lawr gwlad. Er nad yw'n bosibl ateb pob cwestiwn bob tro, mae'n dda gwybod bod gennym ni lais.'

Yn ystod y 10 mlynedd diwethaf mae bron i 4,000 o breswylwyr Sir Gaerfyrddin wedi bod yn aelodau, ac wedi helpu'r partneriaid i gasglu gwybodaeth werthfawr ynghylch llawer o faterion a dylanwadu ar sut y darperir gwasanaethau lleol.

Mae'r Panel yn enghraifft lwyddiannus o waith ar y cyd yn y sector cyhoeddus, sy'n golygu ein bod yn cydweithio'n fwy effeithlon ac yn fwy effeithiol, ac yn bwysicaf efallai, yn arbed arian, sy'n hollbwysig yn yr hinsawdd bresennol.

I raddau helaeth, rydym ni'n gallu nodi lle mae angen inni wella a sut mae defnyddio'r adnoddau sydd ar gael inni yn y ffordd orau oherwydd eich amser a'ch ymroddiad chi ac aelodau blaenorol o ran rhoi eich sylwadau inni am fyw yn Sir Gaerfyrddin a'r gwasanaethau a ddarperir gennym.

Diolch i chi i gyd!

PANEL DINASYDDION SIR GAERFYRDDIN

FFORMAT GWAHANOL?
Os oes angen y wybodaeth hon arnoch ar ffurf print bras neu Braille neu ar dâp sain, ffoniwch 01554 742304

RHIFYN 30 - GORFENNAF 2011

A'R ENILLYDD YW....

Diolch i bawb a gyfrannodd at ein harolwg diwethaf – cyfanswm o 71%. I ddangos ein bod yn gwerthfawrogi eich ymdrechion ac i ddiolch ichi, rydym yn cynnwys pob un o'r arolygon a ddychwelir mewn raffl fawr. Dewiswyd enillydd ar hap ar gyfer arolwg 31 a bellach mae ein henillydd, Ms Desscan o ardal Caerfyrddin, £50 yn gyfoethocach!

Os ydych chi am gael siawns o ennill £50 y tro nesaf, y cyfan mae'n rhaid i chi ei wneud yw llenwi arolwg 31 a'i anfon yn ôl atom ni cyn gynted â phosib. Mae mor syml â hynny!

CYNGOR SIR CAERFYRDDIN

Cynllun Rhannu Cartref

Mae'r Cynllun Rhannu Cartref yn syniad syml tu hwnt. Yn sylfaenol, mae'n golygu cyfnewid gwasanaeth - cyfnewid llety am gymorth yn y cartref.
Bydd deiliad tŷ yn cynnig llety i rannwr cartref, yn gyfnewid am lefel o gefnogaeth y cytunwyd arno, a allai fod o ran tasgau yn y cartref, cymorth ariannol neu'r ddau. Cynllun cyfnewid yw hwn yn y bôn sy'n cydnabod bod gan ddau o bobl anghenion a rhywbeth i'w gynnig. Ar hyn o bryd, nid oes cynllun Rhannu Cartref yn Sir Gaerfyrddin ac rydym yn cynnal ymchwil dechreuol er mwyn cael gwybod a oes angen sefydlu un.

Roedd ychydig ohonoch â diddordeb neu'n adnabod rhywun a fyddai â diddordeb mewn cymryd rhan mewn cynllun Rhannu Cartref. Roedd y nifer fwyaf ohonoch o'r farn y byddai agweddau cadarnhaol y cynllun yn cynnwys darparu cwmnïaeth ac elfen gymdeithasol i bobl, a thrwy hynny mynd i'r afael ag unigedd, a'r agweddau cadarnhaol eraill a nodwyd oedd cynnig cymorth ymarferol a rhoi cartref i rywun.

O ran yr agweddau negyddol, roedd y nifer fwyaf ohonoch o'r farn y gallai'r 'rhanwyr cartref' fod yn anghydnaws e.e. personoliaethau sy'n gwrthdaro. Yn ogystal, roedd rhai wedi tynnu sylw at yr angen am waith archwilio a monitro llym, a rhai'n pryderu y gallai un rhannwr gymryd mantais o'r llall a chamfanteisio ar y cynllun neu ar unigolyn.

Y Celfyddydau a Diwylliant

Er mwyn cynllunio ar gyfer dyfodol cyfleusterau celfyddydol a diwylliannol y Cyngor (amgueddfeydd, orielau celf a gwyliau / digwyddiadau) roeddem wedi gofyn cyfres o gwestiynau ichi am eich defnydd presennol a'ch barn chi am y cyfleusterau hyn. Roedd ychydig mwy na hanner ohonoch (51%) wedi dweud eich bod chi neu aelod o'ch teulu wedi ymweld â digwyddiad celfyddydol neu ddiwylliannol yn Sir Gaerfyrddin yn y 12 mis diwethaf, a'r 3 gweithgaredd ar frig y rhestr oedd: sinema, theatr ac arddangosfeydd celf a chrefft.

A fyddech yn cytuno neu'n anghytuno bod gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol Sir Gaerfyrddin ...?
Roeddech yn cytuno eu bod yn fannau diogel ac wedi cael eu trefnu'n dda (91%), yn fannau deniadol i'w mynychu neu i ymweld â hwy (86%), yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda (85%), yn hawdd i fynd iddynt (83%) ac yn hwylus i'w cyrraedd (80%). Fodd bynnag, roedd y gyfran oedd yn cytuno bod gweithgareddau yn cael cyhoeddusrwydd da gryn dipyn yn llai (53%).

Diffyg gwybodaeth (36%) oedd ar ben y rhestr pan ofynnwyd ichi pa agweddau fyddai'n eich annog chi a'ch teulu i beidio â mynychu neu ymweld â gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol yn Sir Gaerfyrddin, ac yn dilyn hynny nodwyd diffyg diddordeb (24%) ac anawsterau o ran parcio (22%). Byddai gwell cyhoeddusrwydd (47%), rhaglenni sydd â mwy o amrywiaeth (32%) a mwy o gymhelliant i fynychu (25%) yn eich annog i fynd yn fwy aml.

Roedd yn galonogol bod cyfran uchel ohonoch wedi dweud eich bod yn fodlon ar y gweithgareddau a chyfleusterau celfyddydol a diwylliannol oedd yn cael eu darparu yn ardal Sir Gaerfyrddin (77%).

Diweddariad

Mae'r sylwadau yr ydych wedi eu rhoi inni'n bwysig o ran datblygu celfyddydau'r sir. Mae'r staff sy'n ymwneud â'r celfyddydau a'r theatrau'n defnyddio'r wybodaeth hon, ynghyd ag adborth o'r man cynnal, i lywio penderfyniadau ynghylch materion megis yr argraff y mae ein gwasanaethau'n ei chreu, y ffyrdd mwyaf effeithiol o hysbysebu ein rhaglenni, a sut y gallwn wella ein gwasanaethau. Mae'r Cyngor yn ceisio sicrhau mynediad i weithgareddau celfyddydol a diwyllianol ar gyfer pob preswylydd ond nid y Cyngor sy'n darparu'r gweithgareddau hyn o reidrwydd. Felly mae'r Panel Dinasyddion hefyd yn rhoi darlun inni o sut mae darpariaeth gelfyddydol a diwyllianol yn cael eu derbyn ym mhob rhan o Sir Gaerfyrddin.

Mae eich sylwadau ynghylch eich profiad o'n cyfleusterau ni a chyfleusterau darparwyr eraill yn ein helpu i lunio ein cynlluniau tymor hir ar gyfer gwella ac felly'n ein galluogi i benderfynu ynghylch blaenoriaethau. Er enghraifft, roedd sylwadau ynghylch y seddau yn Theatr y Lyric wedi ein helpu i flaenoriaethu seddau newydd wrth gynllunio'r gwaith adnewyddu a gwelliannau technegol.

Bydd aelodau o'r panel â diddordeb mewn gwybod bod 94% ohonoch, yn gyffredinol, yn tueddu i gytuno bod theatrau ac orielau'n bwysig a bod 86% o'r farn y dylai'r Cyngor annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau ac mewn diwylliant.

Byw yn Sir Gaerfyrddin

Meddyliwch am ble yr ydych yn byw, pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi ar eich cymdogaeth (eich pentref/tref)?

Roedd 45% ohonoch yn fodlon ar eich cymdogaeth fel lle i fyw, a 43% yn fodlon iawn. Roedd 22 ohonoch yn anfodlon, a 7 yn anfodlon iawn. Roedd y nifer fwyaf ohonoch yn fodlon neu'n fodlon iawn ar y canlynol yn Sir Gaerfyrddin: siopa (88%), cyfleusterau hamdden (60%) a gwasanaethau trafnidiaeth/bysiau (40%).

Pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi ar bob un o'r gwasanaethau cyhoeddus canlynol yn eich ardal?

	Bodlon iawn	Bodlon	Ddim yn fodlon nac yn anfodlon	Anfodlon	Anfodlon iawn	Dim barn/heb eu defnyddio
Eich meddyg teulu	**47% (237)**	39% (198)	5% (26)	6% (29)	1% (7)	1% (5)
Eich deintydd	33% (161)	**34% (169)**	10% (50)	12% (60)	5% (25)	6% (29)
Eich fferyllydd/ fferyllfa	**58% (291)**	37% (184)	2% (10)	2% (9)	0% (0)	1% (5)
Eich optegydd	40% (199)	**45% (221)**	8% (40)	3% (14)	0% (2)	4% (21)
Eich ysbyty lleol	35% (173)	**41% (207)**	12% (59)	7% (35)	2% (9)	4% (18)

Strategaeth Gymunedol Integredig Sir Gaerfyrddin 2011-16

Mae gan y Strategaeth Gymunedol Integredig un weledigaeth drawsffiniol, sef "Galluogi pobl i fyw bywyd iach a chyflawn drwy gydweithio i greu cymunedau cadarn, dwyieithog a chynaliadwy."

Roedd 76% ohonoch yn tueddu i gytuno neu'n cytuno'n gryf y dylid ceisio dilyn y weledigaeth gyffredinol ac roedd 11% (56 ohonoch) yn tueddu i anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

Mae gan y Strategaeth Gymunedol Integredig bum deilliant sy'n cyfrannu at ein gweledigaeth drawsffiniol. Er mwyn cyflawni hyn, mae yna nodau y byddwn yn gweithio tuag atynt fel partneriaethau ledled y Sir.

Roeddech chi wedi nodi mai *Sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd* oedd y nod pwysicaf o dan y deilliant **"Bydd pobl yn Sir Gaerfyrddin yn iachach".**

Roeddech chi wedi nodi mai *Gwella sgiliau a hyfforddiant er mwyn cynyddu'r cyfle i bawb gael gwaith* oedd y nod pwysicaf o dan y deilliant **"Bydd pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyrraedd eu potensial dysgu".**

Roeddech chi wedi nodi mai D*iogelu plant a phobl ifanc rhag camdriniaeth, erledigaeth, esgeulustod a chamfanteisio* oedd y nod pwysicaf o dan y deilliant **"Bydd pobl sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â Sir Gaerfyrddin yn ddiogel ac yn teimlo'n fwy diogel".**

Roeddech chi wedi nodi mai *Lleihau gwastraff a symud tuag at ddod yn sir ddiwastraff* oedd y nod pwysicaf o dan y deilliant **"Bydd cymunedau ac amgylchedd Sir Gaerfyrddin yn gynaliadwy".**

Roeddech chi wedi nodi mai *Creu swyddi o ansawdd uchel ledled y Sir drwy waith datblygu a buddsoddiad* oedd y nod pwysicaf o dan y deilliant **"Bydd economi gryfach a mwy ffyniannus gan Sir Gaerfyrddin".**

Diweddariad

Diolch i bawb a oedd wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad ynghylch y Strategaeth Gymunedol Integredig. Mae'r canlyniadau o'r Panel Dinasyddion wedi bod yn rhan bwysig o'r ymgynghoriad. Rydym wedi trafod yr holl adborth a gafwyd ac mae'r Strategaeth wedi cael ei diwygio a'i diweddaru. Bydd llawer o syniadau ac awgrymiadau yn cael eu cyflwyno i'n partneriaethau strategol er mwyn iddynt drafod yr adborth gan y Panel Dinasyddion.

Mae'r Strategaeth wedi cael ei chymeradwyo gan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ac mae bellach yn cael ei hystyried fel rhan o broses pwyllgorau'r Cyngor. Byddwn yn lansio'r Strategaeth ym mis Gorffennaf a bydd adroddiad ymgynghori cynhwysfawr hefyd yn cael ei baratoi. Yn sgil sylwadau gan y cyhoedd, mae crynodeb o'r strategaeth hefyd wedi cael ei baratoi. Byddwn yn monitro'r gwaith yn fanwl ym mhob rhan o'r sir ac yn paratoi adroddiad blynyddol ynghylch y camau sydd wedi cael eu cymryd.

HEDDLU DYFED-POWYS

Eich Blaenoriaethau ar gyfer Gwariant yr Heddlu

Ym mis Hydref 2010, cyhoeddodd y Llywodraeth ei Hadolygiad Cynhwysfawr o Wariant ar gyfer pob gwasanaeth cyhoeddus. Erbyn 2014-15, bydd yr arian a dderbynnir gan yr Heddlu mewn grantiau llywodraeth ganolog yr un faint, yn nhermau ariannol, ag yr oedd ym 1996-97, a'r un faint, mewn termau real, ag yr oedd ym 1986. Er mwyn cyflawni'r arbedion hyn, bydd yn rhaid gwneud penderfyniadau ynghylch sut y mae Heddlu Dyfed-Powys yn gwario ei arian. Gan hynny, hoffwn wybod beth yw'ch blaenoriaethau chi o ran y gwasanaeth yr ydych yn ei dderbyn gan Heddlu Dyfed-Powys.

Yn eich barn chi pa rai o'r meysydd lle mae'r heddlu yn gwario fwyaf ddylai...?

Rhoddwyd rhestr i chi o brif feysydd gwariant yr heddlu gan ofyn i chi pa rai y dylid eu diogelu rhag toriadau. Barn y mwyafrif ohonoch (81%) oedd nifer yr heddweision.

O ran y meysydd y dylid eu torri er mwyn cwrdd â'r diffyg yn y gyllideb, awgrymodd dros hanner ohonoch nifer uwch y staff sy'n cyflawni swyddogaethau cefnogi e.e. TG, Cyllid neu Adnoddau Dynol a nifer swyddogion a staff yr heddlu (56% & 53% yn y drefn honno).

Fel y gwyddoch o bosib, mae rhan o'ch Treth y Cyngor yn helpu i ariannu Heddlu Dyfed-Powys. Mae hyn yn golygu £3.49 yr wythnos ar gyfer eiddo Band D.

Pa mor barod neu amharod fyddech chi i dalu mwy o Dreth y Cyngor bob wythnos er mwyn gwarchod y gwasanaethau a ddarperir gan eich Heddlu?

	15c	16c - 30c	31c - 45c	46c - 60c	60c - £1
Bodlon iawn	**53%**	29%	16%	10%	14%
Eithaf bodlon	22%	**31%**	18%	9%	4%
Ddim yn fodlon iawn	7%	14%	24%	20%	11%
Ddim yn fodlon o gwbl	13%	23%	**38%**	**55%**	**65%**
Ddim yn gwybod	4%	3%	4%	5%	6%

Pa mor bwysig ydy hi fod...?

Roedd y mwyafrif helaeth ohonoch (82% a 83% yn y drefn honno) yn teimlo ei bod yn bwysig bod Heddlu Dyfed-Powys yn parhau i gynnal y lefelau troseddu isaf a'r lefelau datrys uchaf o unrhyw heddlu ar draws Cymru a Lloegr.

Diweddariad

Ar hyn o bryd, fel rhan o'r gofyniad sydd arno i arbed o gwmpas £11 miliwn dros y 4 blynedd nesaf, mae'r Heddlu'n edrych ar sut rydym yn cyflwyno'n gwasanaethau plismona ledled ardal Dyfed-Powys. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae'r Heddlu ac Awdurdod yr Heddlu wedi cytuno ar strwythurau newydd ar gyfer plismona lleol a'n hadrannau cefnogi ym Mhencadlys yr Heddlu yng Nghaerfyrddin.

Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar ddelio â'r materion sy'n bwysig i chi a'ch ardal leol gan ein bod yn gwybod eich bod yn rhoi gwerth ar y gwasanaethau plismona lleol rydych yn eu cael wrth ein swyddogion a'n staff. Efallai bydd yn rhaid newid y gwasanaethau hyn rhywfaint, ond ein bwriad yw cadw trosedd yn isel a chynnal y cyfraddau datrys uchaf yng Nghymru a Lloegr.

Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

Cyn derbyn yr holiadur hwn a oeddech chi'n gwybod am y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000?
Roedd 84% ohonoch yn ymwybodol o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, ac roedd 23% ohonoch yn gwybod bod Heddlu Dyfed-Powys yn cyhoeddi gwybodaeth ar ei wefan drwy'r Cynllun Cyhoeddi.

Gwneud cais i Heddlu Dyfed-Powys am wybodaeth:

Ysgrifennu at:	Uned Rhyddid Gwybodaeth, Pencadlys Heddlu Dyfed-Powys, Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin SA31 2PF
Anfon e-bost at:	foi@dyfed-powys.pnn.police.uk
Ffonio:	101 (gofynnwch am yr Uned Rhyddid Gwybodaeth)

Dylech gynnwys y canlynol wrth wneud cais:

- Eich enw a chyfeiriad ar gyfer derbyn gohebiaeth
- Y wybodaeth neu'r dogfennau yr hoffech gael mynediad iddynt

Gan ddibynnu ar natur eich cais, efallai y bydd ffi yn daladwy. Cysylltwch â'r Uned Rhyddid Gwybodaeth drwy un o'r ffyrdd uchod os oes angen cymorth arnoch wrth wneud cais am wybodaeth.

Ymgyrch B.A.N.G. (Bihafiwch Adeg Noson Galan Gaeaf)

Menter Cymru gyfan rhwng y pedwar heddlu a'r gwasanaethau tân ac achub perthnasol oedd Ymgyrch BANG a gynhaliwyd rhwng Noson Calan Gaeaf a noson Tân Gwyllt 2010. Roedd hon yn fenter gadarnhaol a rhagweithiol a welodd Dimau Plismona Bro a staff Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cynnal patrolau ar y cyd, yn ymweld ag ysgolion a rhoi cyngor i bobl ifanc ynghylch cadw'n ddiogel wrth iddynt fynd allan i ofyn 'cast neu geiniog' a phwysigrwydd mynychu arddangosfeydd tân gwyllt trefnedig.

Roedd 12% ohonoch yn ymwybodol o Ymgyrch B.A.N.G., yn bennaf drwy glywed amdano drwy'r wasg a radio lleol. Roedd yr awgrymiadau ynghylch sut y gallai Heddlu Dyfed-Powys wella'r Ymgyrch yn cynnwys: tynnu sylw at yr ymgyrch drwy ragor o gyhoeddusrwydd drwy'r cyfryngau lleol, a chyrraedd amrywiaeth o grwpiau ac oedrannau, yn enwedig drwy gynnwys pobl ifanc yn eu cymuned.

Diweddariad

Cynhaliwyd Ymgyrch B.A.N.G. rhwng mis Hydref a mis Tachwedd 2010. Mae'r adborth a roddwyd gennych wedi cael ei rannu gydag aelodau o Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir Gaerfyrddin, a bydd yn cael ei ddefnyddio i helpu i gynllunio Ymgyrch 2011. Diolch yn fawr ichi am eich cyfraniad.

voice

Aflonyddu ar sail Anabledd

Mae aflonyddu ar sail anabledd yn ymddygiad digroeso, camfanteisiol neu gamdriniol yn erbyn pobl anabl sydd a'r diben neu'r effaith o amharu ar urddas, diogelwch neu annibyniaeth y sawl sy'n ei ddioddef neu'n creu amgylchedd bygythiol, gelyniaethus, diraddiol neu ymosodol. Mae aflonyddu ar sail anabledd yn cwmpasu bwlio a throsedd casineb yn erbyn pobl anabl.

Ydych chi'n credu bod pobl ag anableddau'n cael eu haflonyddu yn eich ardal chi e.e. trwy dderbyn sylwadau sarhaus neu ddifrod i eiddo?

Roedd 45% ohonoch o'r farn nad oedd pobl ag anableddau yn cael eu haflonyddu yn eich ardal leol. Nid oedd 41% yn gwybod a oedd yn digwydd ac roedd 14% (69 ohonoch) o'r farn ei fod yn digwydd. Roedd 36 ohonoch wedi dioddef neu'n adnabod rhywun oedd wedi dioddef aflonyddu mewn perthynas â'ch/â'u hanabledd yn ystod y 12 mis diwethaf, ac roedd 13 wedi rhoi gwybod am hyn i Heddlu Dyfed-Powys.

BWRDD IECHYD HYWEL DDA

Mae Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn gweithio tuag at osod gwasanaethau iechyd wrth galon eich cymuned leol. Ein hegwyddor sylfaenol yw darparu ***"y gofal iawn, yn y lle iawn, ar yr amser iawn".***

Gofynnwyd ichi roi eich barn am yr egwyddor hon, a dywedodd y nifer fwyaf ohonoch (28%) eich bod o'i phlaid, ond roedd rhai wedi tynnu sylw at yr angen am gynllunio'n ofalus a chadw'r holl staff yn gytûn er mwyn i hyn weithio'n effeithlon ac er lles pawb. Roedd 11% ohonoch o'r farn nad oedd modd cyflawni'r egwyddor, ac roedd 10% o blaid yr egwyddor ond yn amau a allai neu a fyddai'n cael ei chyflawni'n ymarferol.

A ydych chi wedi gorfod teithio ar gyfer gwasanaethau arbenigol yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf?

Mae 40% (197 ohonoch) wedi gorfod teithio ar gyfer gwasanaethau arbenigol yn y gorffennol. Wrth wneud hynny, roedd 62% ohonoch wedi dod ar draws materion yn ymwneud â chostau teithio, 50% wedi cael problemau yn ymwneud â chael mynediad at drafnidiaeth, a 26% wedi cael problemau o ran materion teuluol e.e. gofal.

Os byddai'n rhaid i chi deithio ar gyfer gwasanaethau arbenigol yn y dyfodol, a fyddai unrhyw un o'r canlynol yn rhwystr / problem?

Byddai 60% ohonoch yn cael problemau yn ymwneud â chostau teithio, 47% yn cael problemau yn ymwneud â chael mynediad at drafnidiaeth, a 38% wedi cael problemau o ran materion teuluol e.e. gofal.

Beth yn eich barn chi yw'r TRI pheth pwysicaf wrth dderbyn gofal iechyd?

Y tri ffactor y tynnwyd sylw atynt oedd:

1.	Arbenigedd clinigol	52%
=2.	Staff sydd wedi eu hyfforddi'n dda	48%
=2.	Gwasanaeth o safon dda	48%
3.	Trin cleifion fel unigolion	32%

Y ffactorau yr oedd y nifer leiaf ohonoch yn eu hystyried yn bwysig oedd: gwasanaethau'n cael eu darparu mewn amgylchedd pwrpasol (4%) a dewis iaith (3%).

Voice

Diweddariad

Bu'r Bwrdd Iechyd yn gweithio ar y Fframwaith Pum Mlynedd ***"Y Gofal Iawn, yn y Lle Iawn, ar yr Amser Iawn, Bob Tro".***

Rhan bwysig o'r broses hon yw ceisio barn y Panel Dinasyddion. Gofynnir y cwestiynau rydych chi wedi eu hateb ym Mhaneli Dinasyddion Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin hefyd, fel bod gennym farn aelodau Panel ledled y tair sir.

Bydd yr adborth rydych wedi ei roi yn cael ei rannu â'r Tîm Sirol sy'n rheoli'ch gwasanaethau iechyd lleol. Bydd adroddiad o'r holl adborth a dderbynnir o'r tri Panel Dinasyddion yn cael ei ystyried ar lefel strategol gan Fwrdd Iechyd Hywel Dda.

Bydd yr adborth hefyd yn cael ei integreiddio i'r canlyniadau / safbwyntiau a gesglir trwy gydol y broses ymgysylltu ar y Fframwaith Pum Mlynedd, a byddwn yn rhannu'r canfyddiadau â chi ar ddiwedd y broses.

Diolch am roi o'ch amser i rannu'ch safbwyntiau gyda Bwrdd Iechyd Hywel Dda. Maent yn bwysig iawn i ni.

Troi'n wyrdd!

Mewn ymdrech i fod yn fwy gwyrdd, os hoffech dderbyn eich arolwg a'ch cylchlythyr ar-lein, cysylltwch â'r Cydgysylltydd Ymgynghori, os gwelwch yn dda. Ceir manylion cyswllt ar ddiwedd y cylchlythyr hwn.

ADBORTH

Daliwch ati i roi eich barn i ni, er mwyn i ni barhau i wneud gwelliannau. Os hoffech gynnig sylwadau ar unrhyw agwedd benodol ar Banel Dinasyddion Sir Gâr, cysylltwch â'r:

Cydgysylltydd Ymgynghori
Polisi a Chwsmeriaid
Cyngor Sir Caerfyrddin
Neuadd y Dref, Llanelli, SA15 3AH

Rhif ffôn: 01554 742304 neu 01267 226639
E-bost: Ymgynghori@sirgar.gov.uk